



Menter Gwasanaeth Tân
ac Achub De Cymru

Myfyrio Reflect

Ymyriadau leuenctid
adeiladu partneriaethau ledled De Cymru

Mae Prosiect MYFYRIO
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru yn adeiladu
partneriaethau ledled De
Cymru er mwyn addysgu
a chodi ymwybyddiaeth yn
llwyddiannus o negeseuon
allweddol y Gwasanaeth Tân
gyda phobl ifanc 11-25 oed.



CYNNWYS

• Cyflwyniad	4
• Ystadegau	6
• Nodau	9
• Amcanion	12
• Gweithdai	18
• Ymladdwr Tân am ddiwrnod	19
• Chwaraeon yn y Fan a'r Lle / Yn Lleol i Chi	22
• Gwerthusiad	24

Cyflwyniad



Y Prosiect

Nod y prosiect yw codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau gweithredoedd trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn dull a dargedwyd.

Cynulleidfa Darged:

Pobl sy wedi cyflawni troseddau

Mewn perygl o droseddu

Yn dangos ymddygiad sy'n beryglus neu'n heriol

Displaying risky or challenging behaviour

Ystadegau



Oeddech chi'n gwybod?

Mae ystadegau'n dangos bod pobl ifanc 11-25 oed mewn perygl mawr o gael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd neu o ganlyniad i gynnau tanau:



Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yw'r achos mwyaf dros ladd pobl rhwng 15 a 25 oed! (WHO, 2021)



Yn 2021 bu 94 o farwolaethau, 1098 o anafiadau difrifol a 4615 o anafiadau ar y ffyrdd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2021).



Adroddwyd dros 5000 o ddigwyddiadau yn ymwneud â tân yn ystod 2021. Mae cyfanswm y tanau bwriadol yn ardal GTADC wedi CYNHYDDU o 4% ers 2019/2020

Nodau

Y prif nod yw helpu lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol, gan gynnwys:

Lleihau nifer yr ymosodiadau llosgi bwriadol, tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â than, megis ymosodiadau ar ymladdwyr tân a galwadau ffug maleisus.

Gweithio mewn partneriaeth ag Asiantaethau allanol, Gwasanaethau, a Gorsafoedd Tân Lleol i dargedu meysydd angen a nodir gan gudd-wybodaeth.

Gweithio â phobl ifanc sydd o bosib mewn perygl rhag ymwneud ag ymddygiad

Addysgu plant a phobl ifanc am ganlyniadau eu gweithrediadau a sut gall sefyllfaoedd y byddent o bosib yn rhan ohonynt yn medru effeithio arnynt, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Lleihau nifer y marwolaethau yn ymwneud â gyrwyr a theithwyr ifanc neu'r sawl sy'n ymwneud â throedd cerbydau.

Lleihau nifer y bobl ifanc rhag derbyn mynediad neu ail-fynediad i'r System Cyfiawnder Troseddol.

Sut byddwn yn cyflawni hyn?

Rydym yn bwriadu cyrraedd y nodau hyn drwy ddefnyddio'r Prosiect MYFYRIO i ganolbwyntio ar y meysydd pwnc a ganlyn:

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**Ymosodiadau ar Griwiau Tân****Llosgi Bwriadol (Maleisus)****Galwadau Ffug a Maleisus****Trosedd Cerbydau**

Mae gan Brosiect MYFYRIO hy-blygrwydd i deilwra ymyriadau i anghenion grwpiau unigol.

Defnyddiwch wybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng effaith ac achos a gwnewch ragfynegiadau.

- Cymryd persbectifau gwahanol i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau deallus yn effeithiol.
- Cyfathrebu mynegiannau barn cymhleth a mynegi safbwyntiau mewn ystod o sefyllfaoedd drwy ystod o ddulliau priodol.
- Gwerthfawrogi, myfyrio a gwerthuso safbwyntiau eraill ac ymateb yn briodol.

- Bod yn bendant a gwrthod unrhyw ddylanwad diangen gan gyfoedion neu eraill.
- Gwerthuswch a chyrchwch ystod o ffynonellau gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor lleol a chenedlaethol yn hyderus.
- Datblygu'r sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd..
- Addysgu a chynyddu eu dealltwriaeth o bob agwedd ar ddatblygiad personol a chymdeithasol a lles
- Datblygu parch i'ch hun yn ogystal ag eraill.
- Datblygu cyfres o werthoedd cyson a chael yr hyder i'w cymhwyso'n weithredol.
- Arddangos cyfrifoldeb personol yn weithredol fel dinesydd byd-eang.

Amcanion

Nodau'r Wers

- Codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau Llosgi Bwriadol, Tanau Glaswellt Bwriadol Trosedd Cerbydau, Galwadau Ffug ac Ymosodiadau ar Ymladdwyr Tân.
- Ystyried cyfrifoldebau diogelwch i'w hunain ac eraill o fewn y gymuned. **GWEITHIO GYDA'N GILYDD DROS GYMRU WELL**
- Ystyried yr effaith ar y Gwasanaeth Tân, teulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach o ganlyniad i ddewisiadau negyddol.
- I adeiladu dealltwriaeth o wneud penderfyniadau mwy deallus, lleihau'r perygl o ddod yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol/troseddol

GEIRIAU

Diogelwch, tynnu sylw, canlyniadau, ymwybyddiaeth, pwysau gan gyfoedion, diffyg canolbwyntio, risg, perygl, y gyfraith, anafiadau, cosbau.



Amcanion

MAE GWEITHGAREDDAU'R PROSIECT

- Cyflwyno'r aelod/au staff Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru priodol.
- Cytuno ar Reolau Aur.
- Egluro – Amcanion Dysgu a Geiriau Allweddol.
- Trafod materion yn ymwneud â gweithgareddau sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth Tân..
- Sefydlu canfyddiad o'r gyfraith mewn perthynas â'r uchod.

PRIF WEITHGAREDDAU

Pwysleisio y bydd gan Drosedd Tân, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throsedd Ceir effaith ganlyniadol a bod angen iddynt ystyried cyn gweithredu.

PRIF WEITHGAREDDAU

Esboniwch
bwysigrwydd cadw'n
ddiogel

Trafod canlyniadau
gweithrediadau
a gwneud
penderfyniadau
cadarnhaol

Sefydlu dealltwriaeth
person/au ifanc o
Drosedd Tân, Ymddygiad
Gwrthgymdeithasol a
Throsedd Ceir

ADOLYGIAD/SESIWN

- Atgyfnerthu'r canlyniadau cyfreithiol.
- Pwysleisio effeithiau canlynol i'r teulu, ffrindiau a'r gymuned

Gweithdai

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ymrwymedig i wneud ein cymunedau'r llefydd mwyaf diogel i fyw, i weithio ac i ymweld â hwy.

Er mwyn cyflawni hyn rydym wedi datblygu dull hyblyg o wella ein hymgysylltiad â'n partneriaid, cymunedau a phlant a phobl ifanc.

Mae'r prosiect yn rhan o'r dull hwnnw gan anelu at addysgu a chynghori pobl ifanc ynghylch y peryglon a gysylltir â than a'r materion ehangach sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol.

GWEITHDAI GRŴP PROSIECT

Wedi'i ddarparu o amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys gwasanaethau partneriaeth ac adeiladau asiantaethau a Gorsafoedd Tân.

Cynhelir am 1 - 6 awr Mae nifer yr oriau a gyflwynir yn dibynnu ar anghenion y grŵp.

Wedi'i gyflwyno mewn Awdurdodau Unedol Cymru sy'n adnabyddus am Osod Tanau Bwriadol, Trosedd Cerbydau a nifer fawr o Ymosodiadau ar Griwiau Tân a Galwadau Ffug a Maleisus.

Defnyddio amrywiaeth o arfau darparu megis DVD rhyngweithiol, trafodaethau grŵp, adolygiad gan gyfoedion a digwyddiadau achosion byw.

(Mae cynlluniau gwersi ar gyfer gweithdai ar gael ar gais).

Mae gwerthuso yn elfen allweddol o Droseddau a Chanlyniadau gyda'r posibilrwydd y caiff pobl ifanc eu monitro cyn ac ar ôl ymyrraeth er mwyn adnabod unrhyw newid mewn ymddygiad neu agwedd.

Ymladdwr Tân am Ddiwrnod



- Herio prosesau gwneud penderfyniadau negyddol
- Datblygu priodoleddau iachach person ifanc



Mae tîm ymroddedig yn gweithio'n agos gyda'r plant a phobl ifanc gan ddefnyddio dull adferol.

MAE'R GWEITHGAREDDAU YN CYNNWYS:

- Rhedeg Pibellau
- Adeiladu Cronfeydd, a Chwilio ac Achub
- Datrys Problemau
- Adeiladu tîm

Ceir dealltwriaeth werthfawr o rôl Ymladdwr Tân

Ar ôl gwneud y prosiect mae gan bobl ifanc wybodaeth gynyddol o:

- Ganlyniadau a pheryglon gosod tanau bwriadol a materion Diogelwch ar y Ffyrdd
- Sut i fyw a gweithio'n ddiogel
- Ymwybyddiaeth fwy o'u gwerth eu hunain
- Gwelliant mewn Sgiliau Rhyngpersonol
- Fwy o hunan barch

Chwaraeon yn y Fan a'r Lle / Yn Lleol i Chi

Mae chwaraeon y Fan a'r Lle / Yn Lleol i Chi Prosiect yn ymyriad cynhwysiant cymdeithasol sy'n seiliedig ar chwaraeon a gweithgareddau.

Mae Chwaraeon yn y Fan a'r Lle / Yn Lleol i Chi yn darparu cyfle chwaraeon bywiog ac amrywiol i bobl ifanc mewn cymunedau difreintiedig er mwyn cynyddu eu cymhelliant.



Mae gan chwaraeon a gweithgarwch corfforol rôl bwysig mewn atal troseddau ieuenctid, gyda'r nod o gynnig dewisiadau amgen cadarnhaol i gamddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae hon yn ymdrech genedlaethol i brofi'r ffyrdd mwyaf effeithiol i alluogi pobl ifanc ddifreintiedig i deimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd byw ac yn fodd iddynt ystyried cymryd perchnogaeth o'r ardaloedd y maent yn byw ynddynt.

Mae MYFYRIO yn defnyddio'r dull chwaraeon yn ffordd gadarnhaol i ymgysylltu, gan weithio'n agos gyda phartneriaethau fel rhan o'r ddarpariaeth.

Mae gweithdai grŵp yn dilyn ymgysylltu cychwynnol gyda chwaraeon.

Gwerthusiad

Mae Prosiect MYFYRIO yn defnyddio'r hyn a elwir yn ffurflen Asesiad Pobl Ifanc (API)

Bwriad y broses asesu yw darganfod y ffactorau risg ac amddiffynnol sy'n chwarae rhan yn ymddygiad a meddyliau person ifanc ac mae hyn yn galluogi'r prosiect i werthuso newid ymddygiad ac agwedd cyn cyflawni ac ar ôl cwblhau'r prosiect.

Mae'r API yn gymorth gan ei fod yn dangos y mathau o ymyriadau sydd eu hangen.

Rhennir y canfyddiadau ag asiantaethau/ gwasanaethau atgyfeirio ar gais ac yn dilyn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Dengys darganfyddiadau 2020/2021:

Lleihad o dros
80+%
o ran
cyfraddau
aildroseddu
mewn perthynas
â gweithgarwch
troseddol sy'n
ymwneud â'r
Gwasanaeth Tân,
megis gosod
tanau bwriadol.

Dros
90+%
o gynnydd yn
Newid Agwedd
Cadarnhaol.



**Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru**

**South Wales
Fire and Rescue Service**

adeiladu partneriaethau ledled De Cymru

www.decymru-tan.gov.uk/ieuenctid-addysg/ymyriadau-ieuenctid/prosiect-myfyrio